

Gosod systemau cladin waliau sgrin

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a pharatoi a gosod systemau cladin waliau sgrin law

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gosod systemau cladin waliau sgrin law, sy'n gweithio ym maes galwedigaethol galwedigaethau cladin, a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod ar gyfer y gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Gosod systemau cladin waliau sgrin

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1 *

*

Dehongli gwybodaeth**

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o wybodaeth sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys problemau â'r wybodaeth a pham mae'n bwysig eu dilyn

Meini Prawf Perfformiad 2

* *

Arferion gwaith diogel

K4 faint o wybodaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei deall i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol a chanllawiau swyddogol a sut i'w chymhwyso

K5 sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb

K6 beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K7 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K8 pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

K9 sut i weithredu arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

* *

Meini Prawf Perfformiad 3

Dewis adnoddau

K10 beth yw nodweddion, ansawdd, deunyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr adnoddau a sut y dylid cywiro diffygion

K11 sut dylid defnyddio'r adnoddau a sut i adrodd am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â nhw

K12 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau, pam y cawsant eu

datblygu a sut i'w defnyddio

K13 pa beryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r **dullïau gweithio* *a sut i ddelio â'r rhain

Meini Prawf Perfformiad 4

* *

Lleihau'r risg o ddifrod

K14 sut i ddiogelu gwaith rhag difrod a phwrrpas diogelu K15 pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut i wneud hyn

Meini Prawf Perfformiad 5

Bodloni gofynion y contract

K15 sut i ymgymryd â dullïau gweithio i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am broblemau

K16 sut i gynnal a chadw offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 6

Amser a neilltuwyd*

K17 *beth yw'r rhaglen i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser**

Cwmpas/Ystod

Meini Prawf Perfformiad 1**

1 dehongli lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Meini Prawf Perfformiad 2

2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y dilynol

2.1 dulliau gweithio

2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel

2.3 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel

2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel

2.5 risgiau penodol i iechyd

Meini Prawf Perfformiad 3

3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun

3.1 deunyddiau, cydrannau a gosodiadau arbenigol ar gyfer deunyddiau cydnaws

3.2 offer a chyfarpar

3.3 cyfarpar mynediad

Meini Prawf Perfformiad 4

4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

5 atal difrod a chynnal lle gweithio glân

6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Meini Prawf Perfformiad 5

7 dangos sgiliau mesur, marcio allan, gosod, addasu, alinio, ffitio, lleoli a sicrhau

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy, offerynnau lefelu a chyfarpar ategol

9 gosod cladin waliau sgrin law yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

Meini Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau’ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu’r cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Argyfyngau

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

2.1 tanau, gollyngiadau, anafiadau, cwympiadau a gweithdrefnau achub

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

Peryglon

3 y rhai hynny a nodir drwy asesiad risg, fel rhan o ddull gweithio, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

4 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol

4.1 mesurau diogelu ar y cyd

4.2 cyfarpar diogelu personol (PPE)

4.3 cyfarpar diogelu anadlol (RPE)

Gwybodaeth

5 lluniadau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud ag adeiladau a chanllawiau swyddogol sy'n gysylltiedig â gosod systemau cladin walïau sgrin law

Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

6 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario, defnyddio cyfarpar codi mecanyddol a defnyddio cyfarpar mynediad mecanyddol

Cynnal a chadw

7 gofal y gweithiwr am offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol

8 sut a phryd y dylid gwneud gwaith cynnal a chadw

Dulliau gweithio

* *

9 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull, y maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

9.1 nodi gofynion ansawdd ar gyfer gosod

Gosod systemau cladin waliau sgrin

- 9.2 bodloni gofynion y cytunwyd arnynt
- 9.3 cadarnhau meini prawf gosod y gwneuthurwyr
- 9.4 sicrhau bod y calibrad ar gyfer offer lefelu yn gyfredol
- 9.5 asesu addasrwydd deunyddiau cefndir
- 9.6 nodi a gweithio'n unol â llinellau grid a marciau datwm
- 9.7 nodi mathau a nodweddion deunyddiau cladin cyfredol ar gyfer sgrin law, gan gynnwys metel, clai, ceramig a laminiad
- 9.8 ffurfio onglau mewnol ac allanol
- 9.9 ffurfio ciliau ar gyfer agoriadau
- 9.10 gosod systemau cladin waliau sgrin law
- 9.11 lleoli a gosod bachau paneli, dripiâu, sribedi gorchuddio, gosodiadau a ffitiadau
- 9.12 cynnal cyfanrwydd arwynebau
- 9.13 ffitio cydrannau o gwmpas allwthiadau a threiddiadau
- 9.14 lleoli a sicrhau seliau plwm a fentiau
- 9.15 sicrhau ansawdd ac addasrwydd y gwaith ar ôl ei gwblhau ac ar ddiwedd pob cyfnod gweithio
- 9.16 nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ychwanegol
- 9.17 gweithio o blatfformau gweithio symudol sy'n codi
- 9.18 gweithio gyda pheiriannau, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt
- 9.19 defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar
- 9.20 gweithio ar uchder
- 9.21 defnyddio cyfarpar mynediad
- 10 gwaith tîm a chyfathrebu
- 11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â gosod systemau cladin waliau sgrin law

Problemau

- 12 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio
- 12.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa
- 12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

Rhaglen*

13 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

14 gweithdrefnau'r sefydliad i adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Diogelu gwaith*

*

15 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Adnoddau*

16 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol ac arbenigol o

16.1 gosodiadau, caewyr, seliau plwm, ffitiadau, bachau paneli, dripiâu, sribedi gorchuddio, stopwyr a systemau gwahanu

16.2 inswleiddiad, rhwystrau tân, rheoli anwedd, gwahanu a phlenni anadlu

16.3 paent preimio, deunyddiau glanhau, tapiau selio, deunydd selio a llenwadau

16.4 gorchuddion metel a thryleu, systemau adeiledig, sêrn sefyll, gosodiadau cudd, paneli

Gosod systemau cladin waliau sgrin

cyfansawdd, paneli decin a phaneli sgrin law a systemau sment ffibr

16.5 cafnau dŵr ac ati

16.6 offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar

17 nodi niferoedd, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer gosod systemau cladin waliau sgrin law

Gweithdrefnau diogelwch**

18 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Geirfa

Gorchuddion a chladin ar doeau a waliau - pilen gwrth-ddŵr (aml-haen) dros strwythur.

Un bilen – un haen, naill ai o ddalennau dur sinwsoidaidd (rhychiog), alwminiwm, polyfynyl clorid (PVC), plastig a atgyfnerthwyd â gwydr, polycarbonad neu orchudd sment ffibr proffil sy'n cael ei osod yn uniongyrchol ar doeau neu waliau heb ddeunydd inswleiddio. Mae hyn hefyd yn gymwys i orchudd proffil **trapesoidaidd** (blwch) wedi'u gwneud o unrhyw un o'r deunyddiau uchod ac eithrio sment ffibr (proffil sinwsoidaidd yn unig).

Coron – rhan uchaf y proffil.

Cafn neu badell – rhan isaf y proffil.

Sêm sefyll – gorchuddion â sêm uchel wedi'u gwneud o ddur neu alwminiwm fel arfer.

Cysylltyddion – gosodiadau sy'n cysylltu'r dalennau â'i gilydd, **wedi'u sipio**, ac â'r strwythur.

Dalennau clipiau gosod – ychydig yn wahanol i sêm sefyll a chysylltyddion ac wedi'u gwneud o'r un deunydd â'r gorchuddion. Defnyddir clipiau cudd **gosodiadau cudd**, i'w clymu'n sownd i'r strwythur.

Systemau wedi'u hinswleiddio â dwy bilen – yn defnyddio dalen leinio a system **wahanu** i greu gwagle ar gyfer deunydd inswleiddio. Gellir defnyddio gorchuddion a chladin o bob math arall i greu'r bilen gwrth-ddŵr drwy eu gosod ar y darnau gwahanu.

Panelli cyfansawdd – gelwir hefyd yn **paneli haenog**. Maent yn cael eu gweithgynhyrchu mewn amrywiaeth o broffiliau i gael eu gosod ar doeau a waliau mewn gwahanol ffyrdd ac yn cynnwys dwy haen o fetel â chraidd inswleiddio. Dim ond ar gyfer waliau y mae rhai systemau'n addas. Ceir gwahanol ffyrdd o osod y paneli hyn sy'n cynnwys greu **sêm sefyll**.

Decin – dalennau neu hambyrddau wedi'u proffilio sy'n sail i system doi arall.

Panelli strwythurol – gorchuddion neu hambyrddau proffil metel wedi'u dylunio i rychwantu trawstiau a cholofnau. Gellir defnyddio paneli cyfansawdd o ddyluniad penodol fel cydrannau strwythurol.

Deunyddiau cladio wedi'u gwneud o: Deunydd alwminiwm cyfansawdd, Alwminiwm, Argaenau brics, Cerameg, Copr, Sment ffibr, Concrit ffibr, Concrit a atgyfnerthwyd â ffibr gwydr, Plastig a atgyfnerthwyd â gwydr, Polycarbonad, Paneli gwydr (nad yw'n dryloyw) monolithig, Cromatig, Laminiad gwasgedd uchel, Ffotofoltäig, Rendrad, Dur gwrthstaen, Terracotta, Pren, Laminiad pren, Cerrig tenau, Estyll tywydd a Sinc

Gosod systemau cladin waliau sgrin

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	01 Tach 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Tach 2019
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR184
Galwedigaethau perthnasol	Toi gyda Llechi a Theils, Toewyr
Cyfes/Set	Dulliau Adeiladu Arloesol/Modern , Galwedigaethau Cladio (Adeiladu), Galwedigaethau Pren (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Paent preimio; Paneli cyfansawdd; Rhwystrau tân; Rheoli anwedd; Tapiau selio; Pilenni anadlu; Cladin